Annwyl

Rydw i'n credu'n gryf mewn Code Club — byddai'n wych pe gallem ni ddechrau Code Club yn ein hysgol ni.

Rhwydwaith byd-eang o glybiau codio hwyliog yw Code Club, ac maent ar gael yn rhad ac am ddim i bobl ifanc allu creu animeiddiadau, gwefannau a gemau cŵl wrth ddysgu cysyniadau allweddol sy'n ymwneud â rhaglennu. Mae llawer o brosiectau ar-lein ar gael yn rhad ac am ddim iddynt eu dilyn i feithrin eu sgiliau yn Scratch, Python, a HTML/CSS. Mae Code Club hefyd yn helpu i feithrin sgiliau bywyd hanfodol fel cydweithio, gwytnwch, creadigrwydd a datrys problemau.

Dyma fideo byr o Code Club arferol: rpf.io/runningacodeclub.

Mae'n syml iawn rhedeg Code Club. Mae'r prosiectau cam wrth gam yn hawdd i'w dilyn a darperir adnoddau, hyfforddiant a chymorth parhaus i arweinwyr clybiau a mentoriaid i'w helpu i redeg eu clwb. Does dim rhaid cael profiad ym maes codio — mae brwdfrydedd a pharodrwydd i ddysgu yn bwysicach!

"Mae Code Club wedi helpu'n aruthrol gyda hyder y plant i ymgysylltu â maes codio a chyfrifiadura."

**Caroline Harding, athrawes**

Does dim llawer o ofynion ar gyfer dechrau Code Club. Dyma beth fyddwch chi ei angen:

- Lleoliad dan do
- Caledwedd cyfrifiadurol fel cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron, neu dabledi, ac yn ddelfrydol mynediad at y rhyngrwyd
- Rhywun i redeg y clwb yn rheolaidd, fel aelod o staff a/neu fentor gyda gwiriad cefndir cyfredol
- Pobl ifanc i ymuno â'r clwb

Gallwch ddysgu mwy yn codeclub.org a dod o hyd i ragor o fanylion am sut mae dechrau clwb yn rpf.io/startacodeclub.

Diolch yn fawr,